LC247

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998 (fel y'u diwygiwyd) yn gweithredu Penderfyniad gan y Comisiwn (fel y'i diwygiwyd) ynghylch rheolaeth ar fewnforio tatws sydd wedi'u tyfu yn yr Aifft. Mae'r rheolaeth wedi'i gosod er mwyn diogelu rhag dod ag organeddau niweidiol i mewn.

Mae'r rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau 1998 yn sgil Penderfyniad diwygio arall gan y Comisiwn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, tynnir sylw at y ffaith bod y diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd wedi dod i rym yn Lloegr a'r Alban ar 30 Tachwedd 2000.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae angen rhoi sylw i rifau'r paragraffau yn y ddau destun cyn eu cyhoeddi.

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001